# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 10 Gorffennaf 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros y Gyllideb a Busnes

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Yn dilyn penderfyniad y Trysorlys i dorri £2 biliwn ar gyllideb cyfalaf GIG Lloegr, beth yw’r canlyniadau ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ50173)

**Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes (Y Trefnydd):** Mae hyn yn addasiad i linell sylfaen yr Adran Iechyd ar gyfer 2007-08. Ni fydd addasiad cyfatebol i gyllideb Llywodraeth y Cynulliad eleni.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ledaenu’r gefnffordd gyfredol ar y pwynt culaf ar Lôn Fawr, Rhuthun? (WAQ50180)

**Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Brian Gibbons):** Y gefnffordd o dan sylw yw’r A494. Nid oes unrhyw gynlluniau i ledaenu’r ffordd ger Lôn Fawr ar hyn o bryd.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ymestyn y system gefnffordd gyfredol drwy Ruthun i gynnwys y ffordd gyswllt newydd sydd newydd gael ei hadeiladu yn y dref a lleihau’r llif traffig drwy’r dref? (WAQ50181)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych fel yr awdurdod priffyrdd lleol yw’r ffordd gyswllt sydd newydd ei hadeiladu drwy Ruthun gan mai ffordd awdurdod lleol ydyw. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i fabwysiadu’r ffordd newydd hon fel rhan o gefnffordd bresennol yr A494.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a’r Gymraeg

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safon adeiladau ysgol dros dro ledled Cymru? (WAQ50151)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiadau diogelwch a gynhaliwyd ar gyfer adeiladau ysgol dros dro ledled Cymru? (WAQ50153)

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa mor aml y cynhelir asesiadau diogelwch ar gyfer adeiladau ysgol dros dro ledled Cymru? (WAQ50154)

**Y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a’r Gymraeg (Carwyn Jones):** Cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw materion iechyd a diogelwch o ran adeiladau ysgolion gan gynnwys ystafelloedd dosbarth dros dro. Bydd materion iechyd a diogelwch yn ffurfio rhan o asesiadau arolwg cyflwr adeiladau pob awdurdod lleol.

**Jonathan Morgan (Gogledd Caerdydd):** Faint o adeiladau ysgol dros dro ledled Cymru sydd a) dros 5 oed, b) dros 10 oed, c) dros 15 oed, d) dros 20 oed, e) dros 30 oed, f) dros 40 oed, g) dros 50 oed ac h) dros 60 oed? (WAQ50152)

**Carwyn Jones:** Ni chaiff y wybodaeth hon ei chasglu yn ganolog.

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion sut y bydd y cynllun gweithredu ASD yn darparu i sicrhau bod darparwyr addysg uwch yn cael eu helpu i ddatblygu mecanweithiau cefnogi er mwyn i bobl ag awtistiaeth fwrw ymlaen a'u hastudiaethau drwy gefnogaeth ar sail astudio, a chefnogaeth sgiliau byw? (WAQ50170)

**Carwyn Jones:** Daeth yr ymgynghoriad ar gopi drafft o Gynllun Gweithredu Anhwylder Sbectrwm Awtistig i ben ar 25 Mawrth. Derbyniwyd dros 200 o ymatebion a chânt eu dadansoddi ar hyn o bryd. Disgwyliaf y bydd llwyddiant ariannu Mynediad Ehangach Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a ddefnyddir i annog grwpiau o fyfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol megis awtistiaeth, i ystyried addysg uwch ac i helpu iddynt ddysgu tra eu bod mewn addysg uwch, yn sail i'r cynllun terfynol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi £2m ychwanegol ar gyfer datblygiadau ar y cyd er mwyn ehangu mynediad i addysg uwch ers 2002-03. Mae hyn wedi arwain at sefydlu pedair partneriaeth ehangu mynediad. Mae'r Sefydliadau Addysg Uwch yn parhau i gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Darpariaeth i Bobl Anabl fel rhan o'u strategaethau mynediad ehangach.

Mae'r enghreifftiau o'r gwaith a wneir yn cynnwys helpu pobl ifanc i drosglwyddo o'r ysgol a'r coleg i Addysg Uwch; helpu pobl ifanc sy'n astudio cwricwla amgen i ennill cymwysterau priodol; a mentora yn yr ysgol ac e-fentora i wella sgiliau ac i godi dyheadau addysgol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'r Llywodraeth am gyhoeddi ei Strategaeth Gofal Brys? (WAQ50167)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i roi strategaeth 'Dewis y Claf', tebyg i'r trefniant sydd yn Lloegr, ar waith.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion argaeledd gwasanaethau ar gyfer clefyd Parkinson? (WAQ50168)

**Edwina Hart:** Gall ystod eang o ymgynghorwyr fod yn rhan o'r broses o roi diagnosis a gofal parhaus i gleifion sydd â chlefyd Parkinson. Mae'r rhain yn cynnwys meddygon ymgynghorol niwrolegol a geriatrig.

Ar hyn o bryd, caiff cyfran o gleifion oedrannus sydd â chlefyd Parkinson eu rheoli gan ffisigwyr sydd â diddordeb mewn meddygaeth geriatrig. Caiff y cleifion hyn gymorth gan wasanaethau a gomisiynwyd gan y Byrddau Iechyd Lleol.

Darperir asesiad niwrolegol a chefnogaeth allgymorth gan wasanaethau niwrowyddorau ledled De a Chanolbarth Cymru. Ar gyfer y bobl hynny sy'n byw yng Ngogledd Cymru, mae'r clinigau allgymorth yn darparu'r cymorth angenrheidiol. Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw comisiynu gwasanaethau niwrolegol arbenigol yng Nghymru.

Gellir cael cymorth a chyngor hefyd gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol megis Cymdeithas Clefyd Parkinson. Dyma'r ddolen i wefan y sefydliad: http://www.parkinsons.org.uk/default.aspx

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A allai'r Gweinidog amlinellu pa gamau a gymerwyd i ddarparu gweithwyr trosglwyddo allweddol ar gyfer yr holl bobl ifanc anabl y mae angen un arnynt, fel yr

amlinellwyd yng ngham 5.33 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth? (WAQ50174)

**Edwina Hart:** Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn gosod safonau, a gaiff gymorth gan gamau gweithredu allweddol. Gweithgorau o randdeiliaid o'r sector statudol a'r sector annibynnol a phlant a'u teuluoedd oedd yn gyfrifol am bennu'r camau gweithredu, ac mae 5.33 yn un cam yr oeddent yn ei ystyried fel y ffordd orau o gyflwyno'r safonau. Mae rhai o'r camau gweithredu allweddol yn ofynion statudol, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys 5.33.

Rhoddir y dasg o asesu eu cydymffurfiaeth â'r camau gweithredu allweddol i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, gan ddefnyddio'r Dull Archwilio Hunanasesu, a gosod eu blaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn lleol i roi'r camau gweithredu allweddol ar waith yn ystod cyfnod y strategaeth ddeng mlynedd. Mae'r canllaw i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc Lleol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a'r Dull Archwilio Hunanasesu i bennu eu blaenoriaethau yn eu Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r gwaith yn lleol drwy gyflogi rheolwr Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r Fframwaith, yn helpu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ddefnyddio'r Dull Archwilio Hunanasesu ac yn rhannu arfer da ledled Cymru.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y newid yn nifer y gwelyau ar gyfer gofal yr henoed yn ysbyty Treforys ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ50176)

**Edwina Hart:** Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon yn ganolog.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau adsefydlu'r ysgyfaint yng Ngogledd Cymru? (WAQ50177)

**Edwina Hart:** Mae'r Cyfarwyddebau ar Ddatblygu a Chomisiynu Gwasanaethau Cyflyrau Anadlol wrthi'n cael eu cwblhau'n derfynol ar hyn o bryd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar. Mae'r Cyfarwyddebau hyn sy'n mynd i'r afael â'r gwasanaethau ar gyfer Afiechyd Pwlmonaidd Rhwystrol Cronig, yn argymell y dylai rhwydweithiau iechyd anadlol rhanbarthol gael eu sefydlu ar gyfer cyflyrau mor benodol â hyn ac y dylid annog ffordd o gomisiynu sy'n fwy cydweithredol yn rhanbarthol er mwyn sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau sydd ar gael. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Awst.

Yn Sir y Fflint, mae gan y BILl gynllun hyfforddi ar waith ar gyfer gweithwyr proffesiynol Sylfaenol a Chymunedol er mwyn eu helpu i roi gofal i'r rhai sydd ag Afiechyd Pwlmonaidd Rhwystrol Cronig.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o weithwyr iechyd sydd ar gael i gynnal yr asesiadau hyn dan y gwasanaeth ocsigen diwygiedig a faint o bobl - fesul sir - dylid eu hasesu yng Ngogledd Cymru? (WAQ50178)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o bobl sydd wedi cael eu hasesu yng Ngogledd Cymru—fesul sir—ar gyfer y gwasanaeth ocsigen diwygiedig a faint sy'n dal i aros am asesiad? (WAQ50179)

**Edwina Hart:** Mae asesiadau ar gyfer y gwasanaeth ocsigen diwygiedig yn cael eu cynnal mewn canolfannau o bob math ledled Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Nid yw'r wybodaeth benodol am yr asesiadau ar gael yn ganolog.

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am pam mae Comisiwn Iechyd Cymru wedi stopio cyllido cleifion o Gymru ar gyfer triniaeth Ysgogi yn Nwfn yr Ymennydd yn Lloegr? (WAQ50182)

**Edwina Hart:** Comisiwn Iechyd Cymru (CIC) sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau Symbyliad Dwfn yr Ymennydd i gleifion.

Mae'r opsiwn i gael y driniaeth hon wedi cael ei ddynodi'n flaenoriaeth isel i Gomisiwn Iechyd Cymru. Cefnogwyd y penderfyniad hwn gan Fwrdd Cynghori ar Gomisiynu Cenedlaethol CIC yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2006. Bydd CIC yn adolygu ei bolisi ar Symbyliad Dwfn yr Ymennydd yn flynyddol, a chaiff ei statws blaenoriaeth ei adolygu hyd nes y caiff canlyniadau treial y Cyngor Ymchwil Meddygol eu cyhoeddi fel maes buddsoddi posibl yn y dyfodol.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi gwybod am unrhyw gynigion i weithredu'r Strategaeth 'Patient Choice' yn yr un modd â'r GIG yn Lloegr? (WAQ50185)

**Edwina Hart:** Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i roi strategaeth 'Dewis y Claf', tebyg i'r trefniant sydd yn Lloegr, ar waith.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig

**Christopher Franks (Canol De Cymru):** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i orfodi awdurdodau lleol i gymryd camau brys i ddelio â llygredd aer? (WAQ50134)

**Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig (Jane Davidson):** Caiff ymateb i unrhyw argyfwng ansawdd yr aer ei arwain gan yr heddlu a gwasanaethau brys eraill, drwy ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chynrychiolwyr llywodraeth leol.

Mae gennyf bwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol i weithredu o safbwynt rhywfaint o'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag ansawdd yr aer lle ystyriaf eu bod wedi methu â chyflawni eu swyddogaethau, neu wedi methu â chyflawni eu swyddogaethau yn briodol a lle mae problemau gydag ansawdd yr aer wedi codi o ganlyniad i hynny. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, ardaloedd lle y mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau rheoliadol o safbwynt ansawdd yr aer. Mae gennyf hefyd bŵer i gyfarwyddo awdurdodau lleol mewn amgylchiadau pan fo risg o ran llygredd difrifol ar fin codi a hynny o ganlyniad i weithrediad rhai gosodiadau y mae ganddynt gyfrifoldeb rheoliadol amdanynt.